Mr Howells Cribin.

"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

# YMOFYNYDD:

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] MAWRTH, 1890. [RHIF 27.

## CYNNWYSIAD.


| | TUD. |
|---|---|
| Y Gredo Gymdeithasol neu Gyfeillgar | 49 |
| Arwydd y Boreu | 51 |
| Bodolaeth Duw | 52 |
| Hugh Hughes, y Cambrian Artist | 53 |
| Y Nos Gyntaf | 57 |
| Adolygiad | 57 |
| Cariad Chwaer | 59 |
| Ein Cyfarfodydd Chwarterol | 61 |
| Ty y Cyffredin | 63 |
| Nodynau Gwasgarog | 64 |
| Pennillion er cof | 68 |
| Diwygiad Crefyddol | 69 |
| Halen Blasus a Diflas | 70 |
| Manion a Hanesion | 70 |
| Marwgofion | 72 |


Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

## AT EIN DERBYNWYR.

Taliadau :—Miss E., Frondolau; E.W.D., Caerfyrddin; D.T., Treorei; T.H., Llwyn; Rev. J.B.Ll., Llundain; D.H., Ciliau Aeron; D.P., St. Clears; E.T., Cwmbach.

---

☞ Anfoner pob gohebiaeth at y Golygydd,

J. HATHREN DAVIES,

CEFNCOED,

Nr. MERTHYR TYDVIL.

---

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Cefn* Post Office, ac yn enw J. H. Davies, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach nâ'r *Post Office Orders*. Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

Telerau :—Pris 3c., trwy'r post, 3½c.; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

---


## THE GRAMMAR SCHOOL, LLANYBYTHER.

HEAD MASTER :—REV. D. EVANS.

For further particulars, apply to Rev. D. Evans, Llanwnen, Llanybyther, R.S.O.

---

## GWEITHIAU CHANNING.

GELLIR cael yr argraffiad rhad o'r uchod, yn rhad trwy y *post*, am 9c. yr un oddiwrth D. J. JONES

Mount Pleasant Garden, Aberdare.

---

## LLAWLYFR YR UNDODWR, Pris 6ch.

Anfoner at D. Evans, Llanwnen, Llanybyther.

YR

# YMOFYNYDD.

Cyfres Newydd.] MAWRTH, 1890. [Rhif 27.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

## Y GREDO GYMDEITHASOL NEU GYFEILLGAR.

Yn ddiweddar traddododd y Parch. W. W. Tulloch, B.D., Glasgow, y gyntaf o rês o ddarlithiau ar Genadwri Gymdeithasol Cristnogaeth. Mae darlithiau ereill i ganlyn gan y Parch. John Hunter ac ereill, a phob un o honynt mewn esponiad ar y gwahanol erfyniadau yn Ngweddi yr Arglwydd Iesu Grist oddiar safon gyfeillgar.

Wedi cymmeryd yn destyn eiriau agoriadol y weddi hon, dywedodd Mr. T.,—Yn mhlith y lluaws lleisiau a godir i fyny yn yr oes hon, nid oes un yn fwy teilwng o wrandawiad, o sylw, ac o weithrediad yn ei ol nâ'r rhai a alwant ar ddynion a menywod y byd a'r Eglwys yn ol at Gristnogaeth Crist. Mae rhai o'r sawl a ddechreuasant alw arnom ni neu y byd i omedd gwrando yn gyfangwbl ar, a chymmeryd ein harwain yn gyfangwbl gan, lais a chais yr arweinwyr duwinyddol, wedi myned i'w gorphwysfa, a llawer o honynt à'r nod gwaradwyddus ac atgas o heretic arnynt ac yn gylymedig wrth eu henwau; ond er hyny, ni ddarfu iddynt hwy siarad na gweithredu yn ofer: dechreua y byd gydnabod, os yw Cristnogaeth i reoli ac awdurdodi yn y byd, fod yn rhaid iddi gael ei chorffori yn mywyd, dysgeidiaeth, marwolaeth, adgyfodiad, ac esgyniad ei Sylfaenydd, ac nid mewn hen gredoau a damcaniaethau wedi eu gwisgo allan yn y gorphenol. Beth yw y gredo gymdeithasol a gynnwysa yspryd Gweddi yr Arglwydd? Crediniaeth ydyw yn Nhadoldeb Dwyfol y Duw hwnw a greodd y byd hwn, a phlant yr Hwn ydym. Nid yw yr enw, "tad," ar Dduw o angenrheidrwydd yn enw newydd neu feddylddrych perffaith wreiddiol, ond yn hytrach enw ag yr oedd iddo ystyr newydd neu feddylddrych gyda chymhwysiad nad oedd iddo yn flaenorol—enw a chynnwysiad nad yw wedi cael ei sylweddoli yn gyflawn etto. Hyn oedd y peth drwg

gyda dynion yn mhob oes; nis ymddiriedent yn Nuw fel y carai Efe iddynt wneyd; ofnent ac arswydent rhagddo yn hytrach na'i garu Ef ac ymddiried ynddo. Nid Tad yn unig yw Duw, ond Efe yw Tad cyffredinol pawb oll. Pan ddywedent "Ein Tad," cydnabyddent mewn gwirionedd fod pawb dynion yn frodyr, a dim ond i'r graddau y cydnabyddwn hyn y codwn i fyny ac y deallwn wir ystyr urddasolrwydd a dyledswyddau plant Duw. Pa fodd y gallwn edrych i fyny at Dduw a dywedyd, "Ein Tad," pan y cauwn rywun allan o'i gyflawn ran o'i gariad? Ond y mae Tadoldeb Duw, nid yn unig yn gyffredinol, ond hefyd yn berffaith: y Tad yw yn y nefoedd! A dylai hyn beru i ddynion fod yn ochelgar pa mor bell y maent yn dirdroi y cyfflelybiad o'r berthynas ddynol. . . . Ni all un agosrwydd perthynas ddwyn Duw i lawr i'n *level* ddynol ni.

Wedi dangos pa fodd y teifl geiriau agoriadol Gweddi'r Arglwydd oleuni ar yr erfyniadau dylynol, dywedodd Mr. T. wrth derfynu,—Na ddigalonwch o herwydd fod teyrnas y Tad yn ymddangos yn hir i ddyfod. Y mae y ddaear brydferth ar yr hon yr ydym yn byw, a'r hon, yn ngwychder ei phrydferthwch, sydd yn peru i ni ddywedyd ar lawer dydd yn yr Haf, "nad oes achos i'r nefoedd fod yn fwy prydferth," wedi bod unwaith am amser yn ffwrnes danllyd o fŵn toddedig, yn gymmysgedd gwyllt o sylwedd crwydrol, trystiol, ac annhrefnus, o'r hyn yr oedd trefn yn canlyn, fel y gwelir heddyw bob peth yn ddoeth a da. Duw oedd Brenin yr holl gymmysgedd hwn, a gweithrediad ei gyfraith Ef sydd wedi effeithio cyfnewidiad y ddaear deg hon. Ac a ga gallu a chariad ein Duw Dad fethu cyflawnu yn nghalon dynoliaeth yr hyn wnaeth gyda golwg ar fater difywyd? Na chaiff yn wir; allan o ddrwg ymddangosiadol yn ein golwg ni y mae Efe yn dwyn daioni. Y poen a'r ymdrech y gelwir ni i fyned drwyddynt ydynt y moddion drwy y rhai yr adeilada ein Tad bossiblrwydd mwy rhagorol, tecach, ac uwch, nag a allasai ddygwydd i'r sawl a orchfygasant heb boen.

Dywedodd un arall ar yr un pwnc mai prif nodwedd y trawsfudiad ar yr amser presenol yw y pwys llai y mae yr Eglwys yn ei osod a'i gyssylltu â'r ymlyniad wrth athrawiaeth o'i gymharu â'r peth oedd yn y gorphenol. Yn y dyddiau gynt ffydd, bywyd sanctaidd, ac yn neillduol marw sanctaidd, oeddynt destynau mawrion pregethwyr Crist. Yn wir, ffydd yn llythyrenol oedd yr un peth pwysicaf, oblegyd hebddi yr oedd yr enaid yn gwbl golledig, gan nad beth allesid fod o ran ansawdd meddwl a bywyd. O ganlyniad, yr oedd yn rhaid dadleu dros y ffydd uniongred, ac hebddi ystyrid pawb yn anobeithiol golledig. Nid felly yn awr. Yn lle yr ystorm a'r gynddaredd yn nghylch dadleuon crefyddol athrawiaethau neillduol, yr ydym bellach mewn llonyddwch mawr. Crist cymdeithasol neu gyfeillgar, ac nid Crist athrawiaethol, sydd yn awr yn cymmeryd i fyny ac yn denu sylw penaf y meddyliau goreu yn yr Eglwys. Y mae y tueddiad yn y cyfeiriad hwn yn dyfod yn amlycach o hyd. Y pynciau mawrion yn bresenol ydynt, Pa fodd i wella tai y tlodion a'u gwneyd yn addasach i fyw ynddynt? pa fodd i ddyrchafu eu chwaeth a'u hamgylchoedd cymdeithasol? pa

fodd i'w cadw rhag drygioni a phrofedigaethau? pa fodd i'w goleuo a'u dyddanu â rhywbeth o'r goleuni a'r melusder hyny nad yw bywyd ond prin gwerth ei fyw hebddynt? Yr Eglwys ddyfodol fydd yr Eglwys hono fydd fwyaf llwyddiannus yn nghyflawniad gwaith Crist-nogol tebyg i hwn—o wasanaeth dyn, a dyn a Duw yn cael eu huno drwy fod nefoedd a daear yn dyfod yn un â'u gilydd yn awr ac am byth. Gwaith yr Eglwys fydd pregethu y Crist byw a'i fyw yn ymarferol, gwasanaethu yr Arglwydd Dduw yn mhrydferthwch ei sancteiddrwydd, canlyn ac ymdebygu fwy-fwy i Grist o hyd o ran ein hyspryd a'n hymddygiad yn y byd.

L.

---

## ARWYDD Y BOREU.

FE hongia'r boreu 'i arwydd ar gopa'r mynydd draw,
Tra'r dyffryn oll yn gorwedd mewn tawel hûn islaw;
O grib i grib mae'n fflachio, gan chwerthin uwch pob ban,
Fod coronog ddydd yn dyfod—yn y man!

O mae'r dysglaer ddydd yn dyfod, yn dyfod yn y man!
Gallwn wel'd boreuol ruddwawr gogoniant uwch pob ban,
A'r ysplander hwnw welir â'i lewyrch yn mhob man
Yn y dysglaer ddydd sy'n dyfod—yn y man!

Goruwch y cenedlaethau proffwydi unig gwyd,
A'r gwir ddwg sêr a gwawrddydd o fewn eu llygaid llwyd;*
Llewyrcha ar bob calon, ymdaena dros bob ban,
Nes coroni pawb meddylgar—yn y man!

O mae'r dysglaer ddydd, &c.

I'r enaid mae munydau uwch cyrch ein dyddiau rhai'n—
Meddyliau mawrion bywyd yn gwneyd ein llwybrau'n gain;
O awr i awr fe'u teimlwn, fe'u profwn yn y man,
Nes coroni ein byw a'n marw—yn y man!

O mae'r dysglaer ddydd, &c.

Ar godiad haul gogoniant cyffesir yn ddi lyth
Na fydd un da yn fethiant na drwg yn llwyddiant byth;
O oes i oes ymgyfyd ffydd nerthol, ddysglaer, fan,
A'i choronog ddydd sy'n dyfod—yn y man!

O mae'r dysglaer ddydd, &c.

W. C. GANNETT.

T. C. U., *Dydd Nadolig*, 1889.

---

*Bendigedig. Duw lwyd, Duw bendigedig. Mari lwyd yw Mari Fendigaid

## BODOLAETH DUW.

Mr. Gol.,—Dywed Cato fod dynion doeth yn dysgu mwy oddiwrth ffyliaid nag y dysg ffyliaid oddiwrth ddynion doeth. Dichon ei bod felly yn awr gyda Mr. Morgans a minau, a darllenwyr Yr Ymofynydd. Yr wyf yn methu a deall paham y mae Mr. Morgans yn gwadu yr ymddyddan a fuodd rhyngddo ef a minau. Dyma y frawddeg, "Gellir ymresymu cymmeriad neu fodolaeth Duw oddiwrth elfenau natur." Mae Mr. Morgans wedi troi y frawddeg i'r greadigaeth. Dywed, "Yr hyn ddywedais I oedd, a'r hyn ddywedaf yn awr yw, fod y greadigaeth yn ddangoseg o fodolaeth Duw." Ond yr wyf finau yn dweyd yr un peth, ac ni feddyliais fel arall erioed. Mae yn rhyfedd genyf ei fod ef wedi troi ei gefn ar yr ymddyddan, ac yntau wedi gofyn genyf i'w gyfarfod ar dudalenau Yr Ymofynydd. Dywed Mr. Morgans, mewn geiriau ereill, y gellir ymresymu bodolaeth Duw oddiwrth y greadigaeth. Dywedaf finau yr un peth; ond paham y mae efe yn defnyddio y gair "creadigaeth" yn lle yr elfenau? Dywed Mr. Morgans, "Yn awr, ai nid yw enaid dyn yn rhan o'r greadigaeth?' O! y fath gamsyniad. Pwy a glywodd son ond gan Plato a'i ganlynwyr, fod yr enaid yn rhan o'r greadigaeth faterawl? Ac os ydyw, mae Duw ei hun yn rhan o'r greadigaeth, o herwydd oddiwrth Dduw y daeth yr enaid. A ddylem ni gredu, Mr. Gol., fod yr enaid sydd yn byw byth yn rhan o'r greadigaeth faterawl? Mae y corff yn rhan o'r greadigaeth faterawl; ond wedi cael ei roi y mae yr enaid yn y corff gan Dduw, os credwn ni yr Ysgrythyr. Ebai Mr. Morgans, "Ond gan nad yn mha le y cafodd Mr. Jones ei Dduw, y mae wedi ei gael." Mae yn syndod meddwl fod Mr. Morgans yn defnyddio brawddeg mor blentynaidd. Ebai etto, "Ac os ydyw fel Duw yr Undodiaid, Efe ydyw Creawdwr y bydysawd, ac felly, y *cyclones* a'r *hurricanes*." Yr oedd yr Iuddewon yn arfer credu, yn amser mellt a tharanau, a chorwyntoedd cryfion, fod Duw wedi digio, ac wn I ddim pa un a ydyw Mr. Morgans yn tybied yr un modd. Mae yn rhyfedd genyf feddwl fod neb, yn y pedwerydd canrif-ar-bymtheg, a'i syniad mor fach am Dduw ag i'w ddodi yn awdwr i'r *cyclones* a'r *hurricanes*. Nid yw yn rhyfedd fod rhai pobl yn cadw cyrddau gweddi am leihau hir wlyphin neu hir sychin. Beth am yr holl fywydau a gollwyd yn Johnstown, America, a thanchwäau pyllau glo? Nid oes yna ddim llai nag elfenau natur yn gweithredu; ond nis gall duw Mr. Morgans wneuthur mynydd heb bant. Ond beth bynag, yr wyf yn addef mai Duw yw Awdwr y bydysawd, a thrwy hyny, yr wyf yn addef mai efe yw gwir Achosydd bodolaeth yr haul. Pe buasai gwyneb ein daear ni yn cael ei wresogi gan wres yr haul yn gydradd, ni fyddai gyda ni ond awyr llonydd, heb un *cyclone* na *hurricane*. Yn awr, Mr. Gol., enwau ar gyflymdra awyr yn trafaelu yw *cyclone* a *hurricane*. Enw ar awyr llonydd yw tawelwch (*calm*). Yn awr, gwelwn mai gwres yw prif achos gwahanol symmudiadau yr awyr, ac nid Duw yn uniongyrchol. Y mae yr haul yn taflu allan bob eiliad o amser gymmaint o wres a allesid gynnyrchu oddiwrth un fil-ar-ddeg o filiynau o dynelli o lo,

Mae llawer o bethau yn dygwydd mewn natur nas gallwn eu priodoli i Dduw fel eu hawdwr. Mae llawer iawn o wahanol dwymynoedd *(fevers) typhus*, hefyd y dwymyn goch, a'r frech wen. Mae y rhai hyn yn lladd cannoedd o ddynion yn y cwm hwn. Ac y mae o fy mlaen yn awr lun pen dyn o'r enw W. Teller, y lleidr a'r mwrddwr mwyaf a fu mewn hanesyddiaeth. Dichon fod Mr. Morgans yn credu mai Duw yw awdwr W. Teller, fel ag yr oedd ef yn lleidr a mwrddwr. Yr wyf yn cyfaddef mai Duw roddodd fodolaeth iddo fel dyn; ond pwy a roddodd fodolaeth iddo fel lleidr a mwrddwr? Nid yw W. Teller a'r dwymyn goch ond amlygiad o ddeddfau natur; hwyrach mai Odin, y duw Paganaidd, fel y mae Mr. Morgans wedi dywedyd. Atebed Mr. Morgans hyn:—A ydyw yn bossibl i fôd meidrol ffurfio syniad am Fôd Anfeidrol? Paham na fuasai Mr. Morgans yn rhoddi rhyw ateb i'r gofyniad, yn lle neidio o un man i'r llall, fel ceiliog y gwair? Yr wyf yn gofyn i Mr. Morgans, A oes rhyw ddyn wedi cael syniad iawn am y Bôd hwn? Fe ddichon fod Mr. Morgans wedi cyrhaedd y safle uchel hon o feddwl. Nid wyf yn meddwl am neb arall. Ond yr ydym ni yn credu fod ein syniad yn iawn, can belled ag y gallwn gyrhaedd o'r babell ddaearol hon yn bresenol.

Yn y lle nesaf, mae Mr. Morgans yn son am bren â ffrwyth iddo. Barned y darllenydd am ffrwyth Mr. Morgans yn yr hyn y mae wedi ysgrifenu i'r Ymofynydd. Y mae efe fel pren wedi ei blanu ar lan afon gwybodaeth yn nghymdeithas glowyr glo môr Llwynpia, a minau fel hen bren sych wedi ei blanu ar sychdir ar fryniau Sir Aberteifi, fel y gwyddoch chwi, Mr. Gol.

Y mae Mr. Morgans yn dweyd fel hyn:—"Yr oeddwn I bob amser yn arfer credu mai Undodwr oedd Mr. Jones; ond efe ydyw'r Undodwr cyntaf y gwn I ei fod yn amheu yn ymarferol ddylyswydd yr athrawiaeth o gyfrifoldeb dyn." Mr. Gol., dyma haeriad o eiddo Mr. Morgans ag y gallaf ddweyd nad oes ganddo un sail iddo. Mae yn rhyfedd genyf fod y fath beth wedi ei ddweyd, a barned y darllenydd am onestrwydd Mr. Morgans.

Dyma fi, Mr. Gol., yn terfynu: ni flinaf ragor o'ch gofod.

*Tonypandy.* John Jones.

---

## HUGH HUGHES,—Y CAMBRIAN ARTIST.

### 1790—1863.

Yn y *Seren Gomer* am 1831—2 y mae llawer iawn sydd yn ddyddorol hyd y dydd hwn. Dyma bregeth o waith y Parch. Tau Gimel; dyma ddadl wresog rhwng y ddau Jones o Benybont-ar-Ogwy, y naill yn Drindodwr a'r llall yn Undodwr; a dyma ddadl rhwng y Parch. Davies, Glandwr, a John James, o'r Gellionen; barddoniaeth Reuben Davis, Prydydd y Coed, a Rees Jones, Amnon, &c. I mi y mae llawer o ddyddordeb yn yr hen adgofion hyn. Ond yn bresenol yr wyf am

gyfeirio yn fwyaf neillduol at Hugh Hughes, y Cambrian Artist, neu Hughes y Limner, fel y gelwid ef weithiau. Ceir yma lawer iawn o'i waith, a hwnw yn waith da. Yr oedd Hughes ar lawer o ystyriaethau o flaen ei oes; ac felly, yn fynych yn cael ei ddwyn i wrthdarawiad a'i oes. Nid oedd ei oes yn ei ddeall ef, ac efallai nad oedd yntau bob amser yn deall ei oes. Yr oedd yn Ddadgyssylltwr cyn fod y "Liberation Society" wedi ei sefydlu, ac yn ysgrifenwr deallus ar bwnc y Degwm cyn fod mwyafrif y rhai ydynt heddyw yn flaenllaw ar y pwnc wedi eu geni. Ceir yma luaws o erthyglau nerthol a goleuedig o'i waith ar y ddau bwnc. Ysgrifenai yn benaf dan yr enw "Cristion" ac mewn atebiad i "Gwr Lleyg" sef y Parch. Evan Evans, Caer (Ieuan Glan Geirionydd), gellir casglu beth oedd ei safle oddiwrth y dyfyniadau canlynol:—"Yr un faint o reswm sydd yn y dywediad, 'The sacred and inviolable right of the clergy to the Tithe,' a phe dywedid, 'The sacred and inviolable right of the hens and pheasants to their portion of the crop.' Y gyfraith a drefnodd y naill a'r llall, a rhaid i'r bobl dalu pob un, hyd nes newidir y cyfreithiau. Ond i bwy y rhoddir y Degwm pan y newidir y gyfraith?" Etto, "Y mae yn annghyfiawn ac yn gywilydd dwyn oddiar y plwyfogion y fraint o gynnal eu gweinidog, os yw yn deilwng i'w gynnal."—"Nid *crefydd* a gynnaliwch trwy y Degwm, ond *sefydliad* sydd yn peri anfeidrol niwed i wir grefydd yn y byd. Nid y grefydd esgobawl wyf yn olygu ond y peth fel *sefydliad gwladol*, tan rith *Eglwys*, felly y mae yn rhaid ei ddiddymu cyn y bydd dyn yn rhydd, na'r nef yn ogoneddedig, na'r wlad yn llwyddiannus." Dyma ddyfyniad a gadarnheir gan sylw a welir yn y nofel boblogaidd *Rhys Lewis*: "Oni wyddoch chwi eich hunain, nad yw y gyfran hono o drigolion y Dywysogaeth yn bresenol, y rhai a wrandawant yr addysg a geir yn Eglwys y Plwyf *yn unig*, yn gwybod. yn deall, nac yn gofalu dim am *athrawiaeth* ysprydol? Onid yw *ymddiddanion* cyffredin yr holl wlad yn profi hyn? Oni ddywedwch oll yn feunyddiol fod hwn a hwn a drodd at enwad arall, oddiwrth yr Eglwys Sefydledig, *wedi troi yn grefyddol?* Onid crefyddwyr y gelwir y rhai a berthynant i bob enwadau heblaw yr Eglwys? Oni sonia yr Eglwyswyr bob amser am *broffeswyr crefydd* fel rhai ar wahan oddiwrthynt hwy eu hunain, ac yn fynych fel gwrthddrychau eu dirmyg a'u casineb. Ac onid yw hyn oll yn dangos fod bod yn *grefyddol*, yn *grefyddwyr*, neu yn *broffeswyr crefydd* yn beth anadnabyddus, ac annyoddefol hefyd, o fewn holl derfynau yr Eglwys? Cofier o hyd mai am y peth yn gyffredinol yr wyf yn son." Yn 1832 yr ysgrifenwyd felly. Yn ddiamheu fod yr Eglwys wedi gwella llawer oddiar hyny. Ar ddiwedd un o'i lythyrau y mae yn rhoi amryw ffurfiau i ddeisebu y Senedd, ar bwnc yr Eglwys ac ar bwnc y Degwm. Dyma enghraifft:

"To the [Right] Honourable, &c.

"Humbly Sheweth,

"That while the established Church is supported for the improvement of the morals of its own members inclusively, there is no reason

to suppose they would be worse than their neighbours without it; and *if* they are something better with it, yet the difference is not sufficient to justify the enormous expense of the maintenance of a State Religion.

"Your Petitioners therefore pray your [Right] Honourable House to try whether a system of religious freedom would not work well for this Country. Or if Churchmen would indeed (contrary to the opinion of your Petitioners) be *ungovernable* in case a Religion were not kept up for them by Law; the prayer is here humbly and earnestly made, that they be in future made good *at their own expense*, that the nation may be relieved from the oppressive burden of Tithes and Church Rates.

"And your Petitioners will ever pray, &c."

Fe welir oddiwrth hyn beth oedd Hughes o ran ei *bolitics*. O ran ei grefydd yr oedd yn Fethodyn, wedi ei ddwyn i fyny yn Fethodyn, efallai. Nid oedd Methodistiaeth y pryd hwnw yn annhebyg iawn i Wesleyaeth o ran ei pherthynas i'r Eglwys a'i theimlad tuag ati. Yr oedd cymuno yn yr Eglwys yn beth cyffredin gan rai, ac yr oedd rhai o'r Methodistiaid o ran ei gwleidiadaeth yn gryf o ochr Toriaeth a'r Eglwys. Teimlad Hugh Hughes oedd ei fod yn rhydd ar faterion gwleidyddol i ddylyn llais ei gydwybod ei hunan. Yr oedd yr hen gorff fodd bynag yn rhanedig iawn. Dyn mawr yr enwad y pryd hwnw oedd John Elias, ac ar faes crefydd nid oes amheuaeth na fu John Elias o wasanaeth mawr i'r enwad; ond wrth geisio gwthio ei Doriaeth ei hunan ar yr enwad bu yn achos rhwygo'r enwad er dinystr ac er drwg.

Yn y flwyddyn 1828, pan oedd Mr. Hughes yn aelod gyda'r Methodistiaid yn Jewin Crescent, yn Llundain, yr oedd y wlad mewn twrw ar bwnc breinioli y Pabyddion. Pasiwyd mesur Roman Catholic Emancipation yn 1829. Edrychai H. Hughes ar y pwnc oddiar safle Rhyddfrydiaeth oleuedig. Rhoddi i ereill yr un rhyddid a chwareu teg ag yr hawliai iddo ei hun oedd ei bwnc ef; ond ni wnai John Elias estyn y rhyddid hwn i Babyddion. Parotodd Hugh Hughes ddeiseb o blaid y mesur, ac fe'i llawnodwyd gan amryw o Eglwys *Jewin Crescent*; gyda'r canlyniad i Hugh Hughes a rhyw dri neu bedwar o *leaders* y mudiad gael ei tori allan o'r eglwys. Dywedir, fodd bynag, eu bod yn flaenorol wedi ymddiswyddo.

Wedi hyn bu ysgrifenu brwd iawn ar faes *Seren Gomer*. Nid wyf wedi gweled y *Seren* am 1828—9—30, na'r lluaws ysgrifau gwleidiadol ereill a gyhoeddwyd ganddo yn ystod y blynyddoedd hyny; ond yr wyf wedi clywed beio mawr ar yr yspryd y mae Hugh Hughes yn ysgrifenu ynddo. Nid wyf yn gweled pa angen oedd arno ysgrifenu mewn yspryd annghariedig neu annghymmedrol. Yr oedd yn teimlo ar yr ochr iawn a gallasai yn rhwydd ymdawelu yn nerth y gwirionedd. Tebyg iawn fod ei *arguments* yn gyfan, a bod ei wrthwynebwyr yn eu teimlo. Efe gariodd y dydd ac wrth wneuthur ei ran i freinioli y Pabyddion, cafodd y pleser yn mhen ychydig amser o weled yr enwad yn y mwynhad o ryddid gwleidyddol hefyd. Yn Nghym-

deithasfa y Bala, 1831, ac yn flaenorol yn Llanidloes pasiwyd y penderfyniad canlynol :—"Nid ydym ni, fel corff o grefyddwyr, yn dewis ymyraeth mewn un modd a phethau gwladol; a phryd y byddo amgylchiadau yn galw ar rai y perthyn iddynt, roddi pleidlais yn newisiad Seneddwyr, ar fod iddynt ei roi yn ol gwir ryddid eu cydwybodau."

Nid ydym yn darllen fod pleidlais o ddiolch wedi ei basio yn un man i Hugh Hughes am ei ffyddlondeb a'i wrhydri yn y cyfwng pwysig hwn yn hanes yr enwad, ac yr ydym yn gwybod na ddarfu i'r enwad byth roddi yn ol iddo ei le yn yr eglwys. Mynychodd gyfarfodydd yr enwad fel gwrandawr am hir amser, wedi hyny, aeth at yr Annybynwyr, ond nid ydym yn darllen ei fod wedi cael groesaw yn eu plith. Dichon na theimlodd erioed yn gartrefol gyda hwy. Yn ddiweddarach, ymunodd a'r 'Plymouth Brethren;' a'i bwnc mawr wedi'n oedd "Y Weinidogaeth Gyflogedig." Daliai na ddylid talu i weinidogion am eu gwasanaeth; y dylai eu gwasanaeth fod yn rhad ac am ddim.

Wrth ddarllen hanes Hugh Hughes nid wyf yn gallu llai na theimlo edmygedd mawr o'i gymmeriad; nag yn gallu llai na synu na fyddai y Methodistiaid oddiar eu safle heddyw yn gallu teimlo yr un edmygedd, ac yn dangos awydd i roddi iddo le uchel yn nheml eu clod.

Nid yw dydd genedigaeth Hugh Hughes yn hyspys. Ganwyd ef yn Pwllygwichiad, Llandudno, a bedyddiwyd ef yn eglwys y plwyf. Dyma ran o lythyr yr offeiriad, am yr hwn yr ydym yn ddiolchgar :—

"Rectory, Llandudno,

"Aug. 29, 1889.

"My dear Sir,

"I find the following record: "Baptized in 1790, Hugh, son of Thomas Hughes by Jane his wife Feb. 20th, * *."

"Yours faithfully,

"JOHN MORGAN."

Dyma'r ysgrif oddiar garreg ei fedd yn y *Cemetery*, yn Malvern, yn Worcestershire :—"Hugh Hughes, Esq., Artist, Author of the *Beauties of Cambria*, born at Llandudno, Wales; died at Malvern, March 11th, 1863."

Bu farw Mrs. Hughes, yr hon oedd yn ferch i'r Parch. David Charles, Caerfyrddin, Rhagfyr 28, 1873.

Mewn rhifyn dyfodol yr wyf yn gobeithio cael rhoi ychydig yn rhagor o fanylion bywgraffyddol gyda chrybwylliadau ychwanegol am ei waith fel llenor ac fel arlunydd.

R. J. J.

---

AR dderbyniad 3s. 6ch. anfonir copi o'r YMOFYNYDD yn rhydd i unrhyw *address*. 'Oes neb yn teimlo ar ei galon i wneuthur tipyn o waith cenadol?

## Y NOS GYNTAF.

Pan welodd rhiant dynolryw
Y nos gyfriniol gyntaf yn neshau,
O! 'r fath amheuon am ddaioni Duw
Oedd trwy ei enaid ef yn gwau!
A gaffai anian dlos
Yn ngbaddug dudew'r nos
Ei llwyr ddileu;
A'r tryblith cyn y byd
Ddychwelyd yr un pryd,
Am fod y Dwyfol Fawredd yn ymattal creu?

Ond, wele, ar ol tranc y dydd,
Holl gyrau'r cread, fel pe'n ymbellhau;
Fel drysau'r nef, y ser aneirif sydd
Heb baid yn agor ac yn cau:
Mae'r lloer arianaidd fwyn
A'r eos yn y llwyn
Yn swyn didrai;
Mor deg, mor gain, mor lân,
Hyn bellach fydd y gân—
"Mwy helaeth ydyw y bydysawd ac nid llai.',

O f' enaid, p'am yr ofni di
Am fod cyfyngder angeu o dy flaen?
Dy bryder dwys, dy holl anobaith, dry
Cyn hir yn orfoleddus gân.
Os yw Goleuni'r dydd
O dan ryw fantell gudd
Yn celu'r sêr,
Mae Bywyd, yr un wedd,
Yr ochor hon i'r bedd,
Yn cuddio gogoniannau'r nefol nwyfre der.

D. R.

---

## ADOLYGIAD.

Pymtheg Gwasanaeth. "Fifteen services for opening or closing Sunday Schools. By Mr. Bayle Bernard. Price, Two Pence. Essex Hall, London."

Dyma ymgeisydd arall am sylw awdurdodau yr Ysgol Sul, ac y mae yn deilwng iawn o hono. Daw gwahanol bynciau dan y pymtheg pen. Rhoddwn enghraifft. Sylwer ar y ffurf. Dygir yr holl ysgol fel hyn i gymmeryd rhan yn y gwasanaeth:—

## GWASANAETH I.

### PWY GAWN NI WASANAETHU ?

Arolygydd.—Oni wyddoch chwi, mai i bwy bynag yr ydych yn eich rhoddi eich hunain yn weision i ufuddhau iddo, eich bod yn weision i'r hwn yr ydych yn ufuddhau iddo; pa un bynag ai i bechod i farwolaeth, ynte i ufudd-dod i gyfiawnder (Rhuf. vi. 16).

Wele, rhoddi yr ydwyf fi o'ch blaen chwi heddyw fendith a melldith; bendith, os gwrandewch ar orchymynion yr Arglwydd eich Duw, y rhai yr ydwyf fi yn eu gorchymyn i chwi; a melldith oni wrandewch ar orchymynion yr Arglwydd eich Duw, ond cilio o honoch allan o'r ffordd. (Deut. xi. 26—28).

Wele, rhoddais o'th flaen heddyw einioes a daioni, ac angeu a drygioni. (Deut. xxx. 15).

Galw yr wyf yn dyst heddyw y nefoedd a'r ddaear, roddi o honof o'th flaen di einioes ac angeu, fendith a melldith; dewis dithau yr einioes, fel y byddych fyw, ti a'th had; i garu o honot yr Arglwydd dy Dduw, a gwrando ar ei lais Ef, a glynu wrtho, canys Efe yw dy einioes di. (Deut. xxx. 19, 20).

---

Arolygydd.—Dewiswch chwi heddyw pwy a wasanaethoch.

Ysgol.—Na ato Duw i ni adael yr Arglwydd, i wasanaethu duwiau dyeithr. (Josua xxiv. 15. 16).

Arol.—Ni ddichon neb wasanaethu dau arglwydd; ni ellwch wasanaethu Duw a mammon. (Mat. vi. 24).

Ysgol.—Yr Arglwydd ein Duw a wasanaethwn, ac ar ei lais Ef y gwrandawn. (Josua xxiv. 24).

Arol.—O Arglwydd, fy rhan ydwyt.

Ysgol.—Dywedais y cadwn dy eiriau. (Ps. cxix. 57).

Arol.—Bydded dy law i'm cynnothwyo.

Ysgol.—O herwydd dy orchymynion a ddewisais. (Ps. cxix. 173).

Arol.—Ffordd troseddwyr sydd galed. (Diar. xiii. 15).

Ysgol.—Dewisais ffordd gwirionedd. (Ps. cxix. 30).

Arol.—Wele, 'nawr yw yr amser cymmeradwy,

Ysgol.—Wele, yn awr ddydd yr iachawdwriaeth. (2 Cor. vi. 2).

Arol.—Wedi ein rhyddhau oddiwrth bechod a'n gwneuthur yn weision i Dduw.

Ysgol.—Y mae i ni ein ffrwyth yn sancteiddrwydd a'n diwedd yn fywyd tragwyddol.

Arol.—Canys cyflog pechod yw marwolaeth,

Ysgol.—Eithr dawn Duw yw bywyd tragwyddol trwy Iesu Grist ein Harglwydd. (Rhuf. vi. 22, 23).

### GWEDDI

I'w hadrodd gan yr ysgol ar ol yr arolygydd.

Ein Tad nefol, dymuno yr wyt Ti wasanaeth ewyllysgar oddiwrth dy blant; er fod pob gallu yn eiddot Ti, nid wyt yn ein gorfodi

ufuddhau i Ti. Rhoddaist i bob un o honom feddwl i adnabod da a drwg ; a chydwybod i farnu, ac ewyllys i ddewis rhyngddynt. Ond er i Ti ein gadael yn rhydd i th adael Di a gwneuthur drwg, os mynwn fod mor ffol ac mor ynfyd, yr wyt yn rhoddi i ni bob cymhelliad i ddewis y rhan dda yr hon nis dichon neb ei chymmeryd oddiarnom yn erbyn ein hewyllys. Diolchwn i Ti dy fod wedi ein creu ni a'r byd yr ydym yn byw ynddo yn y fath fodd fel y mae drwg-weithrediad bob amser yn dwyn dyoddefaint, ac nad oes dim boddlonrwydd parhaol ond yn unig mewn gwneuthur yr hyn sydd iawn. Yr ydwyt wedi ein creu i Ti dy Hun, ac ynot Ti yn unig y dichon ein heneidiau gael gorphwysfa. A chan mai hawddaf i gyd y cawn dy wasanaeth, po foreuaf y dechreuwn arno, O am i ni gael ar unwaith dy ddewis Di fel ein Harglwydd. Dangos i ni beth fynet i ni ei wneuthur, a galluoga ni i'w wneuthur, a gwna ni yr hyn y dymunet i ni fod, fel y byddom yn eiddot Ti yn unig, yn awr ac yn oes oesoedd.

Ein Tad yr hwn, &c.—*Amen.*

---

## CARIAD CHWAER.

Trigiannai Bessi mewn cartref destlus ar lan afon: ac yr oedd ganddi yr holl ddillad gwychion a'r llyfrau a'r teganau ag oedd eisieu arni, a thad a mam dyner, y rhai a'i carent yn anwyl. Weithiau, tybiai mai hi oedd y plentyn dedwyddaf yn y byd, oddigerth ei brawd bychan, Bob, Babi Bob, yr hwn a anwylid gan bawb o herwydd ei dymher siriol, ei ffyrdd cyfrwys, a'i faldordd felus, blentynaidd.

Pan oedd Bob tua dwy flwydd oed, un prydnawn yn yr Haf, daeth Bessi dan redeg adref o'r ysgol, ac aeth i chwilio am dano er mwyn mwynhau eu dyfyr gampau arferol. Yr oedd y fam yn ddiwyd, a dywedodd nad oedd Bob gyda hi, ond ei fod wedi myned er ys meityn i'r ardd. Felly, fe aeth Bessi i'r ardd, lle y cafodd ei wagen fechan a'i het ar y llawr dan y goeden: ond methai weled Bob yn un man. Rhedodd i lawr y llwybr i waelod yr ardd, gan waeddi "Bob! Bob! B'le'r wyt ti, Babi Bob?" Ond nid atebai un llais tyner hi. Pan gyrhaeddodd y pen pellaf i'r llwybr, gwelodd fod y glwyd a arferai fod yn nghau wedi ei thaflu yn agored yn y modd mwyaf diofal. Wedi myned trwyddi, safodd ei chalon mewn braw wrth yr olygfa a ymagorai o'i blaen. Y tu cefn i'r tŷ, ac ychydig bellder oddiwrtho, rhedai cledrffordd, yn nghyd a phont hir, uchel, dros yr afon. Yr oedd estyll wedi eu taflu dros ganol y bont er mwyn cyfleusdra i'r personau a groesent drosti ar draed, ac ar y llwybr cul hwnw, hanner y ffordd yn groes i'r bont, yr oedd Babi Bob. Cariai fasged fechan mewn un llaw, ac yn y llaw arall damaid o bren, yr hwn a wasanaethai yn lle ffon. Yno yr oedd yn brasgamu yn ei flaen mor ddiystyr o berygl a phe buasai yn rhodio yn groes i lawr ei ystafell fagu.

'Doedd dim rhyfeddod i galon Bessi sefyll, oblegyd darfu i'r gipolwg gyntaf ddangos iddi hefyd gerbydres yn dyfod i fyny'r heol—yn dyfod, fel yr ymddangosai iddi hi, yn gyflymach nag y daeth cerbydres erioed o'r blaen. Ac yr oedd mor agos!

Rhoddodd Bessi un ysgrech, gan obeithio y gallasai ei mam ei chlywed, ac yna brysiodd i lawr i'r heol. Rhedai fel pe bai gan ei thraed adenydd. Gwyddai na ddarfu iddi redeg mor gyflym erioed o'r blaen; ond er cyflymed y rhedai, teithiai y gerbydres yn gynt. Cyrhaedda y bont, a rhuthra ar hyd y llwybr cul. Gwyr ei bod yn gosod ei bywyd ei hun mewn perygl, ond ni phetrusa. Nis gwyr ei bod yn cyflawnu gweithred o wrhydri, dim ond fod ei brawd bychan anwyl mewn perygl, ac fod yn rhaid iddi ei arbed, os gall. Ymddengys fod hyd y nod Babi Bob o'r diwedd yn ymwybodol o'i berygl, pan y gwel yr anghenfil sydd yn tuchan ac yn rhuthro ar ei warthaf.

Mae'n troi, a dechreua redeg mor gyflym ag y medr, ac wrth weled Bessi yn dyfod, estyna ei freichiau bychain tuag ati, a llefa:—

"Cymmer Bob, Bessi! Mae ofan ar Bob!"

A gwasga Bessi ef yn ei breichiau, a theimla ei freichiau tyner ef gylch ei gwddf, ond teimla hefyd y bont yn siglo odditani. Mae y gerbydres arni. Gwyr nas gall gyrhaedd y pen arall i'r bont gyda'r baich oedd yn ei breichiau; er hyny, hyd y nod yn awr, gallasai ddianc, pe na f'ai ganddi ddim i'w gario. Ond ni ddaeth i'w meddwl erioed i arbed ei hunan, a gadael i Bob fychan, ddigymhorth, gael ei wasgu i farwolaeth gan y gerbydres.

Bron na allasai deimlo anadl twym y gawres annhrugarog. Ystyria yn fuan, Bessi fach, ai nid oes ffordd o ymwared? Ymddengys fod un ffordd yn bossibl iddi: gwna brawf o honi. A chan redeg at ben un o'r pileri ar y rhai y safai'r bont, rhyddhaodd y breichiau tyner a ymgylyment gylch ei gwddf, a chan gusanu y foch rosynaidd, hi ddywed, "Ffarwel, Bob!" a gollyngodd y plentyn dros y ganllaw i'r afon obry. Hydera y daw rhywun i'w arbed ef cyn iddo foddi.

Ac yn awr, hi a wna ymdrech egniol am ei bywyd ei hunan. Felly, hi bletha ei dwylaw am un o'r trawstiau, ac ymollynga yn y fath fodd, nes oedd ei chorff yn crogi dros y llif odditani. Os y gall grogi fel hyn hyd nes yr â y gerbydres heibio, fe'i harbedir hi etto. Ond mae'r ymylon llymion yn anafu ei harddyrnau, ac mae'r trawst yn crynu dan bwys y cerbydau, a chyda'r swn byddarol yn ei chlustiau, teimla ei phen yn ysgafnhau, a gollynga ei gafael, a syrthia i'r dyfroedd duon obry.

Yr oedd y peiriannydd o'r diwedd wedi gweled gweithred wrol yr eneth fechan, a chyflymed ag oedd yn bossibl, stopiodd y gerbydres, ac aeth yn ol i arbed y plant. Darfu i un dyn ddyosg ei got, a nofio ir dwfr, a daeth â Babi Bob i dir; ond buwyd yn hir cyn i gorff Bessi gael ei gario gan freichiau preiffion i dŷ ei thad. Am hir amser, gweithiai cyfeillion anwyl uwch y cyrff dideimlad, er ceisio ennill bywyd yn ol. O'r diwedd, agorodd Babi Bob ei lygaid, a chan geisio codi ei freichiau gweinion, llefodd, "Cymmer Bob, Bessi! Mae ofau ar Bob!" Ac am wythnosau, swniai y gri hon yn nghlustiau y fam

wrth weinyddu ar y dyoddefydd bychan trwy wallgofrwydd twymyn. Ond galwai Bob yn ofer, oblegyd yr oedd y breichiau cariadus a wnaeut yn llawen ei gofleidio yn llonydd am byth. Yr oedd Bessi fach wedi marw. Plethasant y dwylaw briwedig ar y galon fechan wrol, a gorchuddiasant hwy a blodau; a phan y dodasant ei chorff dan yr ywen yn y fynwent lonydd, cerfiasant ar y garreg fedd:—"Ein Bessi. Deng mlwydd oed. Cariad mwy na hwn nid oes gan neb, sef bod i un roi ei einioes dros ei gyfeillion."

## EIN CYFARFODYDD CHWARTEROL.

Y MAE'R sefydliad hwn bellach yn un pwysig a chyssegredig yn ein plith, ac yn un sydd yn ddiambheu wedi gwneyd gwaith da cyn hyn o blaid egwyddorion crefydd rydd. Mae wedi bod yn foddion effeithiol iawn i wasgar llawer o'r culni a'r rhagfarn oeddynt yn y byd crefyddol yn ein herbyn fel enwad. Ond, Mr. Gol., mae rhai pethau ag sydd wedi dygwydd yn ddiweddar—nid oes eisieu eu henwi—wedi rhoi lle i rai (os nad i lawer) ofyn, a ydynt yn ateb rhyw ddyben (cyfartal i'r draul a'r ffwdan) yn y modd y maent yn cael eu cario yn y blaen yn bresenol. Ac fel un sydd yn credu nad ydynt, ac fod yr amser ar ddod (os nad wedi dod) pan y dylid gwneyd rhyw gyfnewidiadau ynddynt, yr wyf yn ymgymmeryd ag ysgrifenu ar y mater. Y mae'r byd yn myned rhag ei flaen yn mhob cyfeiriad, gwelliannau yn cael eu dwyn oddiamgylch yn mhob peth; ac yn mhob amgylchiad mae pob sefydliad nad yw yn ateb rhyw ddyben daionus, neu ynte wedi colli pob bywyd, naill ai yn cael ei droi o'r neilldu, neu ynte yn cael ei ffurfio ar gynllun newydd. Nid wyf am foment yn awgrymu y dylid rhoi terfyn ar ein cyfarfod: credaf y buasai y fath beth yn golled annhraethol. Ond credaf, ac y mae'r gred yn cryfhau bob dydd, fod yr amser wedi dod oddiamgylch, pan y mae angenion ein henwad yn gofyn am gyfnewidiadau helaeth yn y dull o'i gario yn y blaen,—y fath gyfnewidiadau ag a fyddont yn ei wneyd yn fwy effeithiol a gwasanaethgar nag ydyw yn bresenol.

Y mae amser wedi bod, os nad wyf yn camsynied, pan yr oedd ein cyfarfodydd chwarterol a'r cyfarfod blynyddol yn cael eu hystyried yn ddau sefydliad gwahanol. Beth bynag, dyna'r argraff sydd ar fy meddwl. Nid yw yn gwneyd un gwahaniaeth pa un a oeddynt neu beidio. Ond os wyf yn iawn, yr wyf, yn y lle cyntaf, am osod y pwnc gerbron eich darllenwyr, a ydyw ddim yn bossibl cu gwneyd yn ddau sefydliad gwahanol etto. Gellid cynnal y cyfarfodydd blynyddol ar yn-ail flwyddyn yn Sir Aberteifi a Sir Forganwg. Yna, gellid cynnal y cyfarfodydd chwarterol fel yn bresenol, gyda'r gwahaniaeth hwn, sef, ei fod yn cael ei ranu—un cyfarfod chwarterol yn Sir Forganwg ac un yn Sir Aberteifi,—dau sefydliad gwahanol. Gyda golwg ar y cyfarfodydd chwarterol, nid oes eisieu iddynt gael eu cynnal ar raddfa mor eang ag

yn bresenol. Y mae gormod o bregethu yn ein cyfarfodydd o lawer. Nid wyf am foment am ddiystyru pregethu, ond yn hollol i'r gwrthwyneb, yn ei ystyried ac yn ei gydnabod fel un o'r dylanwadau mwyaf nerthol mewn cyssylltiad â'n sefydliadau crefyddol. Ond y mae amser i bob peth; a chredaf fod pregethu yn cael gormod o sylw yn ein cyfarfodydd yn bresenol ar draul esgeuluso pethau ereill ydynt yn bwysig i'n bodolaeth fel enwad.

Cymmeraf Sir Aberteifi fel enghraifft. Mae yn y sir hon ddeuddeg o eglwysi. Gellid cynnal y cyfarfodydd chwarterol ynddynt yn gylchynol, ac yna buasai yn dod i bob capel unwaith bob tair blynedd. Buasai un diwrnod yn ddigon i'w gynnal. Yn y boreu gellid ymdrin â gwahanol faterion perthynol i lwyddiant ein hachosion; ni fyddai un angen am i'r cyfarfod hwn fod yn gyfarfod cyhoeddus, ond i gynnrychiolwyr o'r gwahanol eglwysi ac ereill fyddent yn dymuno bod yn bresenol. Y mae gwir angen am rywbeth o'r fath hwn yn ein plith; o herwydd nis gall neb wadu nad yw y modd y cerir ein gwahanol achosion yn y blaen yn bresenol yn ddifywyd a diyspryd iawn. Ac ni fyddai dim a wnelid yn y fath gyfarfod yn cyfyngu ar ryddid ac annybyniaeth yr eglwysi, gan na fyddai dim yn cael ei wneyd mewn cyssylltiad â hwynt heb yn gyntaf gael eu caniatad. Yn y prydnawn, gellid ymdrin â rhyw bynciau fyddent wedi cael eu henwi yn flaenorol, a chan bersonau dewisedig, os yn dewis felly. Mae digon o bynciau ag eisieu eu trin; nid pynciau duwinyddol yn unig: mae y rhan fwyaf o'r cyfryw bynciau wedi eu trin yn dda yn barod, ac nid yw o un budd eu trin byth a hefyd. Ond yn hytrach, y mae pynciau ydynt yn dal cyssylltiad â bywyd beunyddiol dyn,—yn foesol ac yn wladol. A bydd galwad ar yr eglwys yn fuan i ymgymmeryd â hwynt; a bydd pob eglwys fydd yn esgeuluso ymdrin a hwynt yn ddewr ac yn ddi-dderbyn-wyneb yn sicr o golli'r dydd. Ac yna, yn yr hwyr gellid cael cyfarfod pregethu. Yna, byddem yn ymadael o'r cyfarfod dan y teimlad fod rhywbeth wedi cael ei wneyd a fyddai yn tueddu i fod yn lles i'n hachos yn y sir, ac yn foddion i greu mwy o fywyd yn ein plith.

Ac etto, gyda golwg ar y cyfarfodydd blynyddol. Gellid eu cario yn y blaen yn agos yn yr un dull ag y cerir eu cyfarfodydd blynyddol yn y blaen gan ein brodyr, y Saeson, neu, ynte, yn ol y dull presenol, gyda rhai cyfnewidiadau. Aiff y llythyr yn rhy faith i ymdrin â'r mater hwn, ac ofnaf ei fod yn faith eisoes. Yn ngwyneb yr holl gynhwrf sydd yn mysg yr enwad Undodaidd yn Lloegr yn bresenol, y mae y pwnc hwn yn sicr o fod ar ddod yn bwnc y dydd, ac yn un fydd yn gofyn am ymdriniad trylwyr a buan arno. Gall rhai, o bossibl, ei daflu o'r neilldu yn wawdlyd, gan ei ystyried yn rhyfyg i siarad am ddiwygio sefydliad sydd bellach yn sefydliad mor hen; ond fe all y cyfryw deimlo yn sicr nad yw y cyfarfodydd chwarterol ond pethau i ddarfod—yn raddol efallai, ond yn sicr er hyny—os na ellir chwythu rhyw fywyd iddynt amgen yr hyn sydd yn bresenol.

A. B.

## TY Y CYFFREDIN.

Un o brif achwynion y dyddiau hyn yw fod Ty y Cyffredin yn cael ei lenwi â gormod o ddynion ydynt yn fwy gofalus am eu materion eu hunain nag ydynt am faterion y rhai a gynnrychiolir ganddynt; ac yn yr amser a aeth heibio, nid oedd hyn yn un syndod, gan gynnifer y rhwystrau a deflid ar ffordd dynion i fyned i'r Senedd, fel yr oedd braidd yn anmhossibl i unrhyw ddyn oedd mewn cydymdeimlad llwyr â'r bobl fod yn Aelod Seneddol. Ac er fod y rhwystrau hyn yn raddol yn cael eu symmud ymaith, mae lle i ofni y bydd rhaid aros cryn amser etto cyn y byddant wedi eu symmud ymaith yn llwyr. Y mae y mater yn gorphwys yn helaeth yn llaw y wlad, ac y mae lle i ofni eilwaith fod llawer iawn o waith deffroi ac addysgu y werin etto cyn y gellir dwyn hyn oddiamgylch. Gellir bod yn sier na cheir cynnrychiolaeth onest a ffyddlon hyd nes y bydd y wladwriaeth yn gweled ei ffordd yn glir i dalu aelodau Ty y Cyffredin am eu gwaith.

Yr wyf, yn ddiweddar, wedi bod yn edrych i fewn i natur ein cynnrychiolaeth, ac yn herwydd fod y Senedd newydd agor, gall y ffigyrau canlynol fod yn ddyddorol. Mae yn y Senedd bresenol 670 o aelodau, y rhai y gellir eu dosranu i bedair plaid, sef y Toriaid, y Rhyddfrydwyr, yr Undebwyr, a'r Parnelliaid. Mae yn perthyn i'r Blaid Doriaidd 310 o aelodau, ac y mae y rhan fwyaf o'r nifer hwn yn perthyn naill ai i'r bendefigaeth neu yute yn dirfeddiannwyr, yn gyfreithwyr, yn ddarllawyr, ac yn swyddogion yn y fyddin; neu yn fwy cywir, mae yn cynnwys 96 o bendefigion, 70 o dirfeddiannwyr, 49 o gyfreithwyr, 24 o swyddogion y fyddin, 19 o ddarllawyr, ac 11 o swyddogion ereill. Mae'r lleill yn perthyn i alwedigaethau ereill. Cynnwysa y Blaid Ryddfrydig 199 o aelodau; o'r nifer hwn, mae 23 yn bendefigion (neu yn dal perthynas â'r bendefigaeth), 29 yn dirfeddiannwyr, 10 yn cynnrychioli y dosparth gweithgar, 2 yn perthyn i'r fyddin, 55 yn farsiandwyr ac yn berchenogion llaw-weithfeydd o wahanol fathau a llongau, 13 yn dal cyssylltiad â llenyddiaeth, 10 yn berchenogion gweithfeydd haiarn a glo, 32 yn gyfreithwyr, 14 yn broffeswyr a meddygon, 6 yn ddarllawyr, a'r gweddill yn perthyn i alwedigaethau ereill llai eu pwys. Mae yr Undebwyr yn rhifo 75, ac wrth edrych drostynt gwelir ar unwaith fod y rhan fwyaf o honynt yn tueddu yn fwy at y Blaid Doriaidd nag at y Blaid Ryddfrydig, er eu bod yn galw eu hunain yn Rhyddfrydwyr, mae'n wir. Mae 35 o honynt yn dirfeddiannwyr, a'r rhan fwyaf o'r nifer hwn yn dal rhywfath o gyssylltiad â'r bendefigaeth. Gellir ystyried y blaid hon y blaid fwyaf pwysig yn y Senedd bresenol, gan mai yn ei llaw hi mae tynghed y Llywodraeth yn sefyll; a phe buasent yn troi eu cefn arnynt, ac yn dychwelyd yn ol i'r hen gorlan o'r hon y maent wedi crwydro, byddai gan y Rhyddfrydwyr fwyafrif sylweddol. Mae y Blaid Wyddelig yn rhifo 84, ac fel y gellid dysgwyl, mae y rhan fwyaf o honynt yn bersonau sydd wedi bod yn ennill eu bara trwy ddylyn rhyw alwedigaeth, ac nid oes ond 6 tirfeddiannwr yn perthyn iddi.

Felly, fe welwn mor beli yr ydym etto o gael Senedd yn cynnrychioli pob dosparth o'r werin yn gyffredinol. Y mae y rhan fwyaf o'n Haelodau Seneddol yn bendefigion, yn dirfeddiannwyr mawr, yn gyfreithwyr, neu ynte yn dal cyssylltiad agos a'r gwahanol gangenau ereill o fasnach, megys rheilffyrdd, ariandai, &c ; ac nid yw yn beth tebygol fod dynion o'r fath hyn yn teimlo yn awyddus neillduol i symmud ymaith ddim o'r rhwystrau sydd yn sefyll ar ffordd dyrchafiad pob dosparth o'r werin yn gyffredinol, yn enwedig os bydd hyny yn tueddu yn y modd lleiaf i gwtogi eu breintiau hwy. Ac, fel y sylwais eisoes, mae yn rhaid cael cynnrychiolaeth daledig cyn y ceir cynnrychiolaeth gyfiawn. Y mae'r draul sydd yn disgyn ar bob ymgeisydd yn bresenol yn ddigon i ddychrynu y rhan fwyaf rhag meddwl am y fath beth ; ac felly, mae'r cyfoethogion yn cael eu ffordd yn glir iddynt eu hunain ; ac y mae'r etholwyr yn gorfod eu derbyn gan nad pa un a fydd yr ymgeisydd dewisedig yn eu boddloni neu beidio. Ac felly, er fod yr etholfraint yn llaw dynion, etto nid yw mewn gwirionedd (yn y rhan fwyaf o amgylchiadau) ond llythyren farw. Y mae ein ffermwyr yn Nghymru yn ochain dan y beichiau trymion sydd yn cael eu gosod arnynt gan eu huwchafiaid ; etto, ni fu un ymdrech yn ystod y Senedd-dymhor diweddaf i leihau y beichiau hyn. Ac fe ellir teimlo yn sicr na wneir un ymdrech hefyd hyd nes y byddo llawer o aelodau presenol Ty y Cyffredin wedi cael eu troi allan o hono. Y mae'r gallu yn llaw'r bobl eu hunain, pe baent ond yn unig yn cael eu cyfarwyddo pa fodd i droi y gallu hwn i weithio yn y cyfeiriad iawn. A oes dim un Parnell yn ein plith fel cenedl a wna godi i fyny i arwain y bobl, ac i'w cyfarwyddo pa fodd i ennill y breintiau sydd yn awr yn cael eu gwrthod iddynt ? Beth bynag, nid yw i'w gael yn mhlith yr aelodau presenol, er cymmaint eu hymffrost. Ac y mae yn rhaid ei gael cyn y deuwn i feddiant o ryddid yn ei gyflawnder.

## NODYNAU GWASGAROG.

### CAPELYGROES, GER LLANBEDR.

Mr. Gol.,—Gwyr llawer o ddarllenwyr Yr Ymofynydd eisoes fod Capelygroes i gael ei ail adeiladu. Mae yr hen gapel is daear, ac yn afiach felly, coed y seddau nesaf at y muriau yn pydru o herwydd y lleithder, ac amryw gyfnewidiadau yn angenrheidiol ar y llawr ac yn yr oriel, cyn y bydd yn weddol gyfleus a chysurus ; a barnwyd mai gwell oedd adeiladu capel newydd ar unwaith nag adgyweirio yr hen. Yr ydym, fel cynnulleidfa, yn tanysgrifio ein goreu ; y mae cyfeillion ereill hefyd yn y gymmydogaeth yn cynnorthwyo ; ac yr ydys wedi profi Undodiaid Morganwg yn hynod garedig. Gobeithiwn na wna Undodiaid Lloegr oniedd ein cynnorthwyo, ond nid ydym hyd yma wedi clywed ond yn unig oddiwrth y Parch. A. W. Worthington, B.A.; David Martineau, Ysw.; W. D. Jeremy, Ysw.; a Frank Taylor, Ysw.

Blin iawn genyf orfod appelio fel hyn at bell ac agos am gynnorthwy dan y baich. Byddai yn well genyf gloddio nâ chardota, ond cloddio nis gallaf—yr ydwyf yn rhy hen i ddysgu—a chardota sydd raid. Bwriadwn yn y diwedd argraffu rhestr o enwau yr holl danysgrifwyr, ac anfon copi i bob un o honynt.

Derbynir ewyllys da pawb gan yr eiddoch, &c.,

*Pantydefaid, Llandyssul, S. Wales.* THOS. THOMAS.

---

CALFINIAETH YN NGHYMRU.

Mewn erthygl yn yr *Inquirer* am Ionawr 4, yn adolygu y flwyddyn 1889, gwnaethpwyd cyfeiriad tra iselhaol at Gymru mewn cyssylltiad a Chalfiniaeth. Yr oedd yr Ysgotiaid yn cyflym dori'r tannau, ond am Gymru, druan, yr oedd mewn cyflwr braidd anobeithiol, heb allu cyffro dim yn nghyfeiriad rhyddid.

Yn yr *Inquirer* am Ionawr 11, y mae rhywun sydd wedi treulio y rhan fwyaf o'i oes, ac yn cymmeryd arno ei fod yn gwybod, yn dywedyd nad oes ychydig neu ddim Calfiniaeth wedi ei phregethu yn Nghymru yn mhwlpudau un o'r enwadau am yn agos 30 mlynedd; a dywed fod gweinidog goleuedig gyda'r Methodistiaid Calfinaidd wedi dywedyd wrtho nad oedd efe yn ystod deuddeg mlynedd ei weinidogaeth ddim erioed wedi clywed Calfiniaeth yn cael ei phregethu.

---

"PREGETHU CRIST A CHRIST YN UNIG."

MR. GOL.,—Bydded hyspys i "J. J." ac i bawb ereill a ddichon deimlo unrhyw ddyddordeb yn y mater, nad wyf fi yn gyfrifol am y geiriau, "pregethu Crist yn unig." Dywedais mai Iesu Grist yw, neu a ddylai fod, testyn mawr y weinidogaeth Gristionogol, a dyfynais rai o ymadroddion yr Apostol Paul, er ceisio dangos mai dyna oedd testyn ei weinidogaeth ef. Ond ni ddarfu i mi son dim am yr ymadrodd, "yn unig." Ysgrifenydd hanes y cyfarfod yn unig sydd gyfrifol am yr "yn unig" hyna. Gorphwysaf, Mr. Gol., yr eiddoch yn ddiffuant,

*Alltyplaca, Chwefror* 17, 1890. JOHN DAVIES.

---

YR YSPRYD JINGOAIDD.

Nid oes dim diwedd ar swagar John Bull. Rhaid iddo ef ddangos pwy yw bob amser y caiff gyfleusdra. Yn anffodus iddo, mae y *zeitzeist*, yspryd yr oes, yn myned yn gryf yn ei erbyn y dyddiau diweddaf hyn. Mor ffodus y bu i gael dangos ei fawredd yn ddiweddar mewn cyssylltiad â Portugal fach. Fe chwyddodd o leiaf i ddeng

waith ei faintioli arferol, er mwyn creu braw yn mynwes Portugal fach. Wrth gwrs, fe wyr pawb y byddai yn fwy cynnil a gofalus ei ymadroddion, pe byddai galw arno i siarad wrth Rwssia neu Germani. O bossibl fod rhai o swyddogion Portugal wedi troseddu, ac wrth gwrs, dyna'r yspryd jingoaidd. Yr oedd yn rhaid tynu Portugal fach ar ei phenliniau. Yspryd y *terrier* yw yspryd John Bull—nid yspryd y *newfoundland*. Tebyg i'r Tori, Iarll Salisbury, yw yr hen *Whig*, Iarll Grey, pan y mae yn beio y Llywodraeth na fuasent yn fwy penderfynol mewn cyssylltiad â'r gwrthddegymwyr Cymreig, ac yn eu llethu i lawr ar unwaith. *Too late*, frodyr anwyl; nid y 17eg canrif, ond y 19eg ydyw yr un bresenol. Mae dyddiau'r hen scriw yn mron myned heibio. M.P.G.

---

### Y WEINYDDIAETH DORIAIDD AC ADDYSG.

"Y mae plant y byd hwn" yn gyfrwysach yn eu cenedlaeth, &c. Y pwnc mawr yw cael "pluen" a ddal. Mae y dwfr gwleidyddol mor llwyd, fel mae yn anhawdd penderfynu beth i'w wneuthur. Ceisiodd Balfour y bluen Gatholig, ond ni weithiai hono yn y cyfeiriad a fynai efe, heb wneuthur mwy o ddrwg i'r blaid mewn cyfeiriadau ereill. Pwnc yr etholiad nesaf yw'r peth mawr sydd mewn golwg. Pluen rhyddhau addysg y werin yw y ddiweddaf, ac y mae yn debyg o fod yn dderbyniol gan lawer. Ond fe ddylid edrych yn fanwl beth mae hyn yn ei olygu. Golyga yn sicr ragor o arian y werin i gynnal addysg eglwysig, a hyny heb i'r werin gael un llais yn y llywodraethiad o hono. Onid oes digon o arian eisoes yn myned i'r cyfeiriad hwnw heb ychwanegu ato? Ysgolion Rhydd, os mynwch; ond gadawer i ni gadw y pa fodd yn ein dwylaw ein hunain, ac nid dysgu credo Sant Athanasius ar draul rhagor o drethi. Q.Q.

---

### YR YMHERAWDWR A'R GWEITHIWR.

Yn ddiweddar mae Ymherawdwr yr Almaen wedi danfon allan wahoddiad i'r gwahanol lywodraethau i gyfarfod mewn cynghrair i ymdrin â'r gwahanol bynciau sydd yn bresenol yn cael cryn sylw yn mysg y dosparth gweithgar yn mhob gwlad, ac yn enwedig felly yn yr Almaen. Mae yn anhawdd gwybod beth sydd wedi ei arwain i wneyd hyn, o herwydd nid yw ymherawdwyr a breninoedd hyd yn hyn wedi dangos rhyw awydd mawr i wneyd dim i ddyrchafu sefyllfa y gweithiwr; ond yn y gwrthwyneb, maent wedi gwneyd eu goreu i'w gadw ar lawr. Er hyny, dichon fod Ymherawdwr yr Almaen wedi gweled y camsyniad, a'i fod am droi dalen newydd, a dangos mwy o gydymdeimlad a phob dosparth o'i ddeiliaid; a gobeithio ei fod wedi galw y cynghrair dan sylw yn nghyd gyda'r amcanion mwyaf pur, ac nid gydag amcanion hunanol. Gall deimlo yn sicr, er hyny, nad oes ne-

mawr o obaith y gall lwyddo i wella sefyllfa y dosparth gweithgar yn ei deyrnas cyhyd ag y byddo ei wlad yn cael ei beichio a'r cyfreithiau caethion sydd yn awr yn gwasgu ar ysgwyddau y bobl, a chyhyd ag y byddo y gyfundrefn filwraidd bresenol o'i eiddo yn lladd yspryd y genedl yn gyffredinol.

---

UNDODIAID LLOEGR A THREFN EGLWYSIG.

Oddiwrth yr ohebiaeth helaeth sydd wedi ymddangos yn yr *Inquirer* (Yr Ymofynydd Saesneg) yn ystod yr wythnosau diweddaf, ymddengys fod cryn dipyn o wahaniaeth barn yn bodoli gyda golwg ar yr adroddiad sydd wedi ei gyhoeddi gan y pwyllgor a appwyntiwyd i ystyried y mater. Mae rhai yn sefyll yn gryf yn erbyn sefydlu cynnadleddau talaethol a chyffredinol, ac yn dal y dylid yn hytrach helaethu cylch gweithrediadau y gwahanol gymdeithasau sydd yn awr mewn bodolaeth. Ereill a gasglant nad oes unfrydedd yn yr eglwysi oddiwrth y ffaith fod cymmaint o honynt wedi esgeuluso gwneyd sylw o'r cynllun a osodwyd ger eu bron. Ond gyda golwg ar hyn dylid cofio fod llawer o'r nifer hwn yn cael eu gwneyd i fyny o eglwysi gweinion, y rhai a ystyrient nad oedd a wnelo'r pwnc â hwy. Nid wyf yn meddwl fod dros chwech o'r eglwysi Cymreig wedi gwneyd yr un sylw o hono. Mae cyfarfod i gael ei gynnal yn gynnar yn mis Mawrth i ystyried adroddiad y pwyllgor. Nid oes genym ond dysgwyl bellach beth fydd y canlyniad.

---

ARAETH Y FRENINES.

Mae y Senedd wedi cyfarfod, ac Araeth y Frenines (a gamenwir felly) wedi cael ei darllen. Nodir allan amryw fesurau mwy neu lai eu pwys ag y bwriada y llywodraeth eu dwyn yn mlaen ; ond yn ol yr arwyddion presenol nid oes nemawr o obaith y pasir yr un o honynt. Tebyg yw y bydd y Senedd-dymhor hwn yn un o'r rhai mwyaf ystormus sydd wedi cymmeryd lle etto, ac felly yn un o'r rhai mwyaf diffrwyth gyda golwg ar les y wlad. Da genym weled fod yr aelodau Cymreig yn rhoddi cyfrif da am danynt eu hunain, gan fod amryw o honynt eisoes wedi dwyn amryw fesurau i fewn. Gobeithio y byddant yn llwyddiannus yn eu hymdrechion.

---

ARFERION DILES.

Mae yn ddiamheu genyf fod llawer o arferion diles mewn cymdeithas, a rhai pwysig mewn cyssylltiad ag angladdau, ond yr wyf yn hollol argyhoeddedig, Mr. Gol., fod eich sylw ar dudalen 42 yn un sydd yn hawddach eu haeru na'i brofi. Gwn eich bod yn ddigon rhyddfrydig i

ganiatau i mi ddywedyd hyny, hyd y nod pan yr wyf felly yn annghytuno a chwi. Busnes gynnil ydyw ymyraeth ag arferion ydynt yn dyfod mor agos at deimladau dynion, ac yr wyf fi wedi teimlo yn wastad mai perthynasau yr ymadawedig ydyw y rhai mwyaf priodol i benderfynu trefniadau'r angladd. A ydych chwi, Syr, yn edrych ar bregethu mewn angladd megys *formality*, neu ddefod wag? Nid wyf fi'n amheu na all fod yn hyny i rai, ond fe all pob pregethu fod felly *i rai*, ac felly mae yr *argument* yn profi gormod. Nid yw pregethu mewn angladd yn ddefod wag os ydyw yn foddion i helpio y galarwyr i deimladau mwy tawel, os yw yn foddion i gyfeirio eu llygaid at yr Un a ddichon sychu eu dagrau a iachau eu clwyfau. Gwneler y pregethau yn well wrth gwrs, ond na cheisier amddifadu y galon ddrylliog o'r hyn y dichon fod yn galw am dano. Wrth roddi hanes y galanasdra yn Abersychan fe ddywed Morien fel hyn:—"Bum mewn capeli lle y traddodai gweinidogion anerchiadau cyn gosod gweddillion y meirw yn eu beddau. Yr oedd ymadroddion tyner y rhai hyny yn dwyn cysur i'r galarwyr—ïe, yr oedd eu sylwadau cysurlawn megys olew ar archollion calonau." Ni ellir gosod rheol *hard and fast* ar bwnc fel hwn, ac i'm tyb I, ni ddylid treio. M P.G.

---

## PENNILLION ER COF

*Am fy anwyl dad a mam, sef Morgan a Catherine Hopkin, Cathelyd. Bu fy nhad farw Ebrill* 21, 1881, *a fy mam Tachwedd* 27, 1888, *wedi cyrhaedd yr un oedran, sef* 76 *mlwydd. Claddwyd hwy yn Ngellionen.*

Rhyfedd iawn yw'r byd a'i droion—weithiau'n llawen, weithiau'n brudd!
Cof hiraethlon bâr i'r dagrau dreiglo'n ffrydiau dros fy ngrudd;
Cofio am fy hoff rieni—rhai'm gwyliasant rhag cael cam;
O mor unig 'rwy'n ei gweled yn y byd heb dad na mam!

Collais lawer o gyfeillion, collais rai perth'nasau mad,
Ond erioed ni fu'r fath deimlad â phan gollais mam a 'nhad;
Er fod 'nhad yn huno'n dawel yn y bedd er's llawer cam,
Mae rhyw hiraeth adnewyddol ynwyf 'nawr 'rol claddu 'mam.

Edrych i'r hen gadair freichiau pan yr elwyf 'fewn i'r ty,
Gweled 'nhad a 'mam yn eisiau—gwag, O gwag o hyd yw hi!
Yn fy ngwely pan orweddaf, 'hed fy meddwl heb nacâd
Tua'r dawel fangre bruddaidd lle mae bedd fy mam a'm tad.

Llanw wnaethant gylch bodolaeth yn ystyriol gyda'u gwaith,
Ac 'roedd blodau euraidd rhinwedd yn coroni pen eu taith;
Canol swn eu hymdrechiadau oedd ymestyn at y pur,
A'u cynghorion, nis annghofiaf, ydoedd *gwneyd* a *dweyd* y gwir.

Llwythog ydwyf o adgofion am eu bywyd yn y byd;
Rhyw bortread byw o honynt ddaw i'm meddwl lawer pryd;
Wedi myned, rhaid tawelu, er mor anwyl oedd eu gwedd;
Felly ninau, bawb o honom, a'n cyfeiriad tua'r bedd.

*Cathelyd.* LEWIS HOPKIN.

---

## DIWYGIAD CREFYDDOL.

DROS ganrifoedd lawer y mae crefydd Paul wedi bod yn cuddio a thywyllu crefydd Iesu Grist, ac y mae'r byd wedi ei lenwi a chredoau ac athrawiaethau a dadleuon difudd. Pa fodd bynag, y mae o'r diwedd arwyddion yn mhob man fod crefydd yr Iesu i dderbyn adfywiad, ac fod y claf, y tlawd, a'r annedwydd—cyrff a bywydau y bobl—yn myned i dderbyn ar ddwylaw ei ddylynwyr Ef y sylw caruaidd a'r cymhorth cymmwynasgar nad oedd Efe byth yn blino eu rhoddi iddynt. Y mae iachawdwriaeth i fod yn y byd hwn ag y gwyddom am dano, a llai o ddyfalu yn nghylch y byd nesaf, yr hwn yr ydym yn anwybodus yn ei gylch. Y mae'r eglwysi yn rhoddi eu dadleuon o'r neilldu ac yn myned i fanau tywyll y tir a chanddynt Efengyl a chanddi rywbeth mwy i'w ddweyd wrth filiynau tlawd ac anwybodus y wlad hon a gwledydd ereill na eu bod wedi eu damnio a'u colli yn ol dedfryd Duw ffromedig! Buasai crefydd Iesu Grist wedi puro a dyrchafu y byd er's amser maith pe na buasai wedi ei throi o'r neilldu i roddi lle i grefydd gredoglymedig Paul, athrawiaethau a phynciau a dywediadau caledion yr hwn ydynt dros amser maith wedi taflu cysgod tywyll ar fywyd syml ac egwyddorion pell-gyrhaeddol "Y Gwr Gofidus." Y mae ffurf-eglwysaeth gyda'i hollti blew ar bob math o ddyrysbynciau, yn trengu, ac y mae Crefydd ardderchog prynedigaeth i'r bobl yn cymmeryd ei lle. Yn y dyfodol nid oes dim ag sydd yn wir yn y bywyd dynol i aros y tu allan i gylch crefydd. Caiff y pregethwr ei destyn yn mywydau y lluaws trwmlwythog gan lafur a dyoddefaint. Deuir i weled mai adlewyrchiadau a rhanau ydyw cariad dynol ac ymgais ddynol o'r bywyd helaethach at yr hwn yr ydym yn tueddu, ac oddiwrth yr hwn nid oes dim all ein gwahanu. Nid all hyd y nod ein camweddau a'n camsyniadau wneuthur hyny. O'r diwedd, y mae gwae y dinasoedd mawrion wedi tori drwy gragen drwchus crefyddaeth (*religionism*). Y mae pregethwyr wedi troi ymaith oddiwrth y gau dduw a edrychai yn ddigyffro ar ddyoddefaint eu creaduriaid, ac wedi troi at y Gwaredwr mwyn a wylai uwch ben y bobl ac a gyhoeddai felldithion ar eu gormeswyr. Diwygiad crefyddol mawr mewn gwirionedd ydyw yr un ag yr ydym yn gweled ei ddechreuad. Fe fydd i'r dynion ydynt wedi eu taflu o'r eglwysi am na allent seinio eu Shibbolethau gael gafael ar eu lle yn y bywyd crefyddol sydd yn gweled y byd yn llawn pryd-

ferthwch, ac sydd hefyd yn gweled yn mhob anunionder weithrediad gwyrdroedig yr hyn sydd iawn. Mae yr hen grefydd greulon wedi ei thynghedu, ac y mae'r grefydd newydd—crefydd gobaith ac ymgais, ffydd, ymddiried, a chyd-gynnorthwy yn dyfod. Ni symmudir yr hen ddirgeledigaethau—ni ellir eu symmud. Bydd bywyd a marwolaeth o hyd yn aros i ddyrysu dynion. Ni wna gwybodaeth egluro dammeg fawr y byd, dim ond dangos yn fwy eglur pa mor anesponiadwy ydyw. Nid ydyw dynion wedi gwneuthur dirgelwch y sêr yn fwy hawdd drwy eu gwybodaeth helaethach. Nid ydynt ond wedi arddangos eigionau dyfnach—cyfundraethau mwy dirfawr o fydoedd anchwiliadwy. Y dyn sydd yn gwybod yr hyn sydd i'w wybod sydd yn deall oreu, fel y mae yn cael ei gau i fewn ar bob ochr gan gwestiynau nas gall eu penderfynu. Gwna adfywiad y grefydd Gristionogol filoedd o dynelli o esponiadaeth sychlyd o bob math yn ddiddefnydd. Ai Crist oddiamgylch gan wneuthur daioni. Darfu i ddysgyblion Paul yn yr oesoedd diweddar gau allan weithio o'u credo, ac ysgrifenasant lyfrau diflas ar grediniaeth. Ni welwyd erioed ddadblygiad mwy dyddorol na'r adfywiad hwn ar grefydd sydd yn arddangos ei hun mewn llawer modd, ac y symmuda ymaith ddrygau cymdeithasol mewn modd nas gallai dim arall eu symmud. Fe ddysga dynion garu y byd a'i blant blinderog pan y credant mewn Duw sydd yn eu caru.—*D.R. o'r Cambrian News.*

---

## HALEN BLASUS A DIFLAS.

Yr halen blasus welir—drwy ein byd,
Ar ein bwrdd, croesawir ;
Ond diflas halen deflir,
Ni thâl i domen na thir.

*Penrhyndeudraeth.* J. G. Jones.

---

# Manion ac Hanesion.

Deallwn fod y Cyfarfodydd Chwarterol nesaf i gael eu cynnal yn Abertawe. Nid yw y trefniadau wedi eu cwblhau etto, ond ceisia Mr. Clarke genym hyspysu ein brodyr a'n chwiorydd Undodaidd ei fod ef a'i gynnulleidfa yn Abertawe, yn dymuno rhoddi y croesaw mwyaf gwresog iddynt i'r cyfarfodydd, ac hydera y cymmer llawer fantais o'r cyfle trwy bresenoli eu hunain. Ceir manylion pellach yn y rhifyn nesaf.

Drwg genym ddeall fod y Parch. R. C. Jones, Llanbedr, yn herwydd afiechyd, yn analluog i gyflawnu ei ddyledswyddau fel gweinidog. Hyderwn yr adferir ef yn fuan.

Dydd Llun, Chwefror y 3ydd. cynnaliwyd cyrddau sefydlu y Parch. W. A. Clarke, yn weinidog yn Abertawe. Yr

oedd yno gynnulleidfa ragorol, a chafwyd areithiau grymus gan amryw o weinidogion ac ereill.

Yn ddiweddar, bu farw Mr. Samuel Fielden, gan adael yn ei ewyllys lawer iawn o gymmun-roddion gwerthfawr. Yn eu plith rhoddodd bum' mil o bunnau i'r *British and Foreign Unitarian Association*, cyffelyb swm tuag at y gymdeithas Undodaidd yn Swydd Lancaster, a dwy fil a hanner tuag at y capel Undodaidd yr oedd yn aelod ynddo, yr hwn hefyd a anrhegwyd ganddo ef a'i frodyr.

NOTTAIS.—Yn ddiweddar traddododd y brawd ieuanc Mr. W. J. Phillips ddarlith yn y capel hwn ar "John Howard," y dyngarwr enwog. Rhoddodd y ddarlith foddlonrwydd mawr, ac ar y diwedd darfu i nifer danystrifio at y gofgolofn ydys yn godi yn awr i Howard.

Mae y Parch. Idrisyn Jones wedi ysgrifenu i'r *Christian World* yn dweyd mewn atebiad i'r cwestiwn "A allwn ni weithio gyda'r Undodiaid?" Fod y gagendor rhyngddo ef a'r Undodiaid gymmaint fel na fyddai ond rhyfyg o'r mwyaf ynddo geisio gweithio gyda hwy. Mae yn hen ddywediad mai y dyn mwyaf anwybodus yw y dyn culaf ei farn.

Deallwn fod yr *Influenza* wedi cyrhaedd Sir Aberteifi, ac fod rhai o'n gweinidogion yn methu myn'd yn mlaen â'u goruchwylion o'r herwydd.

Gofynwyd unwaith i Mr. Oliver Wendell Holmes, pa bryd y dylai addysgiaeth plentyn ddechreu, a'i ateb oedd, "Can' mlynedd cyn ei eni."

Yn ol y *Liverpool Mercury* y mae Dr. Edwards, Aberystwyth, yn dywedyd fod cyfnewidiad mawr wedi dyfod dros feddyliau pobl ieuainc Cymru yn ddiweddar. Mae chwyldroad dystaw yn pasio dros feddyliau y bobl; llawer o'r hen dduwinyddiaeth wedi tori i lawr, fel nas gallasai lai na gwneuthur daioni, gan mor unochrog a chamarweiniol oedd.

Ymddengys fod Dic-shon-dafyddiaeth yn myned ar gynnydd; a'r Cymru yn ddigywilydd yn dywedyd, *We, English, we, English*; ië, *we, English*, lawer pryd mewn ton ac acen sydd yn bradychu (chwedl Esop) yr asyn mewn croen benthyg.

Pregethodd mab i offeiriad yn ddiweddar mewn capel Annybynol, a dywedodd wrth derfynu fod yn ddrwg ganddo fod deddf ddynol ddrwg yn ei rwystro i wahodd gweinidog yr Annybynwyr i bregethu yn mhwlpud ei dad.

Dathlir Juwbili sefydliad y *Penny Post* eleni. Rhodder yr holl anrhydedd i Rowland Hill; ond arferai y diweddar Barch. Samuel Roberts haeru na wnaeth R. Hill ddim ond benthycia y syniad oddiwrth lythyr a ddanfonwyd ganddo ef i'r *Post Office* yn dymuno am sefydliad o'r fath.

O'r braidd y credwn y gallai neb ond offeiriad Eglwys Loegr a Thori gyfeirio llinellau fel hyn at Mr. Gladstone:—

Says the devil, 'This place is full as can [be,'
But I would like to make room if I can;
So we let Ananias and Judas go free,
And took in the Grand Old Man.

Yr offeiriad a wnaeth hyny oedd, R. L. Story, ficer Ruddington yn Notts.

Onid yw yn chwithig i ddarllen am hap-chwareuon (*gambling*) mewn cyssylltiad a chapelau ac eglwysi? Ni ddylid troi tŷ Duw yn synagog Satan.

Mewn tref lle mae YR YMOFYNYDD yn talu ymweliad y mae *boxing saloon*, a'r athraw yn y gelfyddyd yw un o'r offeiriaid. Dywedir fod amryw ddynion ieuainc eisoes wedi eu dinystrio yno.

The riddle of the world is understood
Only by him who feels that God is good,
As only he can feel who makes his love
The ladder of his faith, and climbs above
On th' rounds of his best instincts.
—*Whittier*

Ateb Coleridge i un a ofynai a oedd Crist'nogaeth yn wir, Oedd, treiwch ef.

Meddai Mr. Spurgeon yn ddiweddar, "Ni chefais I fy ordeinio erioed, ac nid wyf yn golygu cael."

Beddargraff yn mynwent St. Peter's, Norwich: 'Er cof am Janet Rhodes, yr hon a fu farw o esgidiau teneu."

Dywedodd athraw un o'n colegau duwinyddol yn ddiweddar, Pe pregethid athrawiaeth poenau tragwyddol yn awr fel cynt, y gwagheid hanner ein cynnulleidfaoedd.

Sonir llawer heddyw am efrydiaeth manwl o'r Beibl. Arweiniai hyny i Undodiaeth. Ni ddysgir yr athrawiaethau poblogaidd yn y Beibl.

Daw y Beibl yn fwy gwerthfawr o ddwyn ychydig yn rhagor o *reswm* i'r esponiad o hono.

Dywed y *Christian Life* na fu anadl cymdeithas Brydeinig erioed yn felusach nag yw yn awr.

Nid yw ysprydoliaeth yn golygu anffaeledigrwydd.

"Over and over again," neu "drosodd a throsodd etto," ydyw gwers y bydysawd, meddai y Parch. Robert Spears.

Mae trallodau heddyw, ar y cyfan, yn hawdd eu dwyn; trallodau yfory a threnydd ydynt yn byrhau einioes.

Dywedir fod glanweithdra yn tueddu i estyn einioes.

A ddyfeisiwyd y llygad heb wybodaeth o ddeddfau goleuni? neu y clust heb wybodaeth o ddeddfau swn?

Dywed y *Methodist Herald* na fyddai niwed, ar Sul poeth, i dynu tipyn oddiwrth hyd pregeth, a'i ychwanegu at y lled.

Mae gan y goeden a ddiwreiddir gan y gwynt fwy o gangenau nag o wreiddiau.

Cerddor gwael yw yr hwn na all chwythu ei udgorn ei hun.

Po fwyaf heddychol a brawdol y delo Cristionogion, lleiaf o wrthgloddiau sydd eisieu i'w cadw nhw ar wahan.

Yr amddiffyniad goreu o Gristionogaeth, neu o unrhyw grefydd arall, yw bywydau y sawl a'i proffesant.

Y mae efengyl gwaith, yn ol Sant Ffrancis, yn gynnwysedig mewn tri pheth. Rhaid i chwi weithio heb arian, a bod yn dlawd. Rhaid i chwi weithio heb bleser, a bod yn ddiwair. Rhaid i chwi weithio yn ol cynllun arall, a bod yn ufudd.

Mae pob dyn yn genadwr, yn awr ac am byth, er da neu er drwg, pa un a fydd efe yn ymwybodol o hyny neu na fydd.

Os nad yw dyn yn syrthiedig yn Adda, fe ddywedir wrthym fod yr holl gyfundrefn eglwysig, yr holl gynllun cadw, fel ei pregethir yn gyffredin, yn rhwym o syrthio i'r llawr fel pac o gardiau.

# Marwgofion.

Tachwedd 22, 1889, o'r *diptheria*, yn ddau fis ar bymtheg oed, Rachel, merch Rachel Jones, Cilgwyn Uchaf. Ni chafodd Mrs. Jones gadw yr un fechan ond am amser byr ar ol claddu ei thad. Er iddi golli ei phriod a'i merch fechan un ar ol y llall, na fydded iddi alaru fel un heb obaith. Ar ddydd y gladdedigaeth gwasanaethwyd yn fyr yn y ty gan William Rees, Rhydygwin, a chladdwyd yn mynwent Llangybi.

Ionawr 21, 1890, ar ol cystudd maith a thrwm, Thomas Thomas, Nottais, ger Pen-y-bont-ar-Ogwy. Bu Mr. Thomas am flynyddau lawer yn aelod ffyddlon o'r Capel Undodaidd yn y Nottais. Bedyddiwyd ef gan yr hen weinidog, y Parch. Titus Lloyd. Cymmerodd yr angladd le Ionawr 23, pryd y darllenodd Mr. Titus Lloyd yn y ty ranau o'r Ysgrythyr, ac yr offrymodd weddi yn Gymraeg. Gweddiodd hefyd Mr. W. J. Phillips yn Saesneg. Cyn i'r orymdaith gychwyn o'r ty darfu i aelodau yr Ysgol Sul, o'r hon yr oedd ein cyfaill yn aelod cysson, ganu emyn prydferth Cardinal Manning, "Di, dyner wawl." Claddwyd yr hyn oedd farwol o hono yn mynwent eglwys y plwyf yn y Drenewydd, pryd y gwasanaethwyd gan y ficer. Gadawodd yr ymadawedig weddw i alaru ei cholled. "Yr hwn a barhao hyd y diwedd a fydd cadwedig."

Chwefror 3, yn ddwy flwydd a thri mis oed, Benjamin Russell, unig blentyn Mr. a Mrs. B. P. Evans, Troedyrhiw. Ni chafodd yr un bychan prydferth hwn gystudd maith, ond yr oedd yn gystudd caled, ac yn ei ddygiad ymaith enhuddwyd dysgwyliadau serchus tad a mam dyner. Y dydd Iau canlynol claddwyd corff y bychan yn mynwent yr Hen Dy Cwrdd, Cefn. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parchn. J. Pethian Davies a — Walters (A.), ac yn y capel gan weinidog yr Hen Dy Cwrdd. Addewidion crefydd yr Iesu fyddont yn eli i friwiau calon y rhieni yn eu galar.

Chwefror 15, yn 70 mlwydd oed, Gwenllian Jones, gweddw y diweddar Taliesin Jones, o Goedycymmer. Daeth angeu yn hollol ddirybudd i'r ymadawedig: teimlai fel arfer nos Sadwrn, ond boren Sul cafwyd hi wedi marw yn y gwely. Bu yn aelod am flynyddau yn yr Hen Dy Cwrdd, yn mynwent yr hwn y claddwyd ei gweddillion y Mercher canlynol, pryd y gwasanaethwyd gan y gweinidog. Duw fo'n darian i'w merch sydd ar ol.

*Jenkin Howell, Argraffydd, &c., Aberdar.*

# GEORGE'S POPULAR REMEDIES.

## AT Y CYHOEDD.

**Erfynir arnom yn fynych i roddi hysbysrwydd o'r holl Ddarpariaethau Meddygiaethol a vneir genym. Wele yn canlyn *list* o'r prif rai ;—**

**GEORGE'S PILE AND GRAVEL PILLS.** Y mae y Feddyginiaeth hon yn rhy adnabyddus drwy yr holl fyd i alw am ragor o hysbysrwydd yma. Digon yw dweyd fod " Dr Quain's Dictionary of Medicine "—y llyfr meddygol pwysicaf a ddaeth allan o'r wasg erioed, heddyw, yn cydnabod mai yr egwyddor fawr ar *yr hon y mae y Feddyginiaeth uchod yn sylfaenedig*, yw yr unig wir egwyddor yn ol pa un y dylid trin holl ddoluriau perthynol i'r Ymysgaroedd, yr Arenau, y Cylla, a'r Afu Yr ydym yn gwneyd y ffaith bwysig hon yn hysbys fel ag i wneyd pawb sydd yn defnyddio y Peleni bydenwog hyn deimlo yn sicr eu bod yn chwilio am wellhad ar linellau ag y mae perffeithrwydd Celfyddyd Feddygol yr oes hon yn gymmeradwyo a'i orchymyn.

—o—

**GEORGE'S AMERICAN RHEUMATIC LINIMENT,** neu "*American Marvel.*" Hon ydyw y Ddarpariaeth fwyaf poblogaidd yn yr holl fyd at y Gwynegon, Lumbago, Sciatica, Cymalau Stiff, Cramp, Stiff Joints, Chwyddiadau, Clefisiau, Ysigiadau, Dolur y Gwddf, Quinsy, Gwendid yn yr Aelodau, Inflammation, a holl boenau *lleol* ereill.—*Mewn poteli*, 1/9 *a* 1/1½ *yr un. Drwy y Post*, 2/- *a* 1/4.

—o—

**GEORGE'S STOMACH AND LIVER TONIC.**—Yr ydym yn gwarantu y gwna y Feddyginiaeth hon Awchu y Cylla at Fwyd, Cynnorthwyo Treuliad Bwyd, Puro y Gwaed, Creyfhau'r Gewynau, Sirioli'r Ysprydoedd, Addfedu ac Adlliwio pob Hylif Afiach a Llysnafeddog o'r Corff.—*Mewn poteli*, 2/9 *yr un. Nis gellir ei ddanfon gyda'r Post.*

—o—

**GEORGE'S TIC MIXTURE.**—Symmuda hwn y dolur a elwir Tic, (neu Tictolorw) a'r Rheums mewn ychydig oriau.—*Mewn poteli*, 1/9 *a* 2/9 *yr un. Nis gellir ei ddanfon gyda'r Post.*

—o—

**GEORGE'S CAMBRIAN TONIC VOICE LOZENGES.**—Nid oes eisieu ond enwi cefnogwyr y *Voice Losenges* hyn er profi mai hwy sydd ar y blaen at Greyfhau a Phereiddio y llais. Dyma ychydig o honynt :—Madame Edith Wynne, Dr. Parry, Owen Alaw, Eos Morlais, Llew Llwyfo, Jas. Sauvage, D. Jenkins, Mus. Bac., Jno. Thomas, Caradog, &c, &c.. *Pris* 6ch. a 1/-. *Gellir cael y Bwch* 1/. *gyda'r Post am* 1/2 *mewn stamps.*

—o—

**GEORGE'S CURE FOR BRONCHITIS.**—Meddyginiaeth effeithiol at wella " Bronchitis." *Mewn poteli*, 2/6 *yr un. Nis gellir danfon hwn gyda'r Post.*

—o—

**"FLATULINE."**—Meddyginiaeth hynod effeithiol er symmud gwynt o'r cylla a'r ymysgaroedd. *Pris*, 1/1½ *a* 2/9 *y botel. Nis gellir ei ddanfon gyda'r Post.*

—o—

**"ASTHMALINE."**—Darpariaeth gwir werthfawr at ddiffyg anadl. *Pris* 1/9 *a* 2/9 *y botel. Nis gellir ei ddanfon gyda'r Post.*

—o—

**"DR. CRYNANT'S PLASTER."** (Established 40 Years.) Hwn ydyw y Plaster mwyaf hynod yr oes at wella Ysigiadau, Briwiau, Toriad Asgwrn, Clwyfau, Gwendid yr Aelodau, Lumbago, &c. *Mewn Packets*, 7½*c. a* 1/1½ *yr un. Yr un mwyaf drwy y Post am* 1/3 *mewn stamps.*

PERCHENOG :—

## J. E. GEORGE, M.R.P.S.,

## Hirwain.


INTERESTING FACTS FOR INVALIDS.
The experience of twenty years proves that no medicine for the cure of all the Disorders of the BOWELS, LIVER, KIDNEYS, and STOMACH will bear comparison with GEORGE'S PILE AND GRAVEL PILLS.
It is an important fact that these Remedies are patronised and highly recommended by EMINENT MEDICAL MEN, both in this country and America.
Many of the wealthy of the land give their time and money to supplying the afflicted poor in their neighbourhoods with these Pills. This fact speaks volumes in favour of these Pills.
Were all the Testimonials that have been received in favour of these Remedies printed, they would fill a volume of over a THOUSAND PAGES of the ordinary size.
There is not a civilized nation under the sun that has not experienced the HEALING VIRTUES of these Remedies. For many years they have held the FIRST PLACE in the world as a remedy for the above disorders.
It is the opinion of those best able to judge that a discovery of greater importance to suffering humanity than GEORGE'S PILE AND GRAVEL PILLS has not been made in this century.
THOUSANDS have been cured by these Pills, and TENS OF THOUSANDS relieved of their pains; and many who have been pronounced hopeless have been THOROUGHLY RESTORED TO HEALTH by their use.
Sold in Boxes, 1/1½ and 2/9 (by Post, 1/3 and 2/10) each, by all respectable Chemists.
IMPORTANT CAUTION.—BEWARE OF SPURIOUS IMITATIONS.